# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Cynllun Corfforaethol Drafft

# 2022 – 2027

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg

## Cynnwys


1 **Rhagair** ........................................ 3

2 **Clywed eich barn chi** ........................................ 5

3 **Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd** ........................................ 7

4 **Ein Blaenoriaethau** ........................................ 8

**Atodiadau**

5 **Pwrpas y Cynllun** ........................................ 24

6 **Sgwrs y Sir a sut gwnaethom ddatblygu'r Cynllun** ........................................ 26

7 **Datganiad Lles a Datganiad Cyfrifoldeb** ........................................ 30

8 **Rheolaeth Ariannol** ........................................ 33

9 **Adolygu Rheolaidd – sgwrs barhaus** ........................................ 34

10 **Ymhle gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor** ........................................ 35


*Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael, ynghyd â fideo Iaith Arwyddion Prydain o'r crynodeb, ar ein gwefan* drwy dudalen we'r Cynllun Corfforaethol

# 1 Rhagair

Croeso i Gynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022 – 2027. Mae ein cynllun yn amlinellu ein huchelgeisiau i wneud gwahaniaeth i Bobl Conwy dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn cwrdd â chanlyniadau'r dinesydd yn yr hirdymor. Datblygwyd y cynllun ar ôl ystyried yr adborth a gawsom gan ein cymunedau, a thrwy ddadansoddi gwaith ymchwil a thueddiadau data am y sir, a bu'r ddau'n sylfaen ar gyfer ein blaenoriaethau.

Bu pandemig byd-eang Covid-19 yn brofiad eithriadol i bob un ohonom, ac yn sicr yn gwbl ddigynsail drwy gydol ein gyrfa ni gyd. Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn, rydym yn dal i weithio'n galed gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus, er mwyn ymateb i oblygiadau amrywolion Covid, cefnogi cymunedau a busnesau sy'n dal i wynebu cryn bwysau, a darparu ein gwasanaethau arferol. Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn amlinellu'r camau allweddol y byddwn yn eu gweithredu er mwyn adnewyddu ac ailadeiladu, wrth i ni weithio tuag at normal newydd. Er hyn, mae'n dal i fod yn anodd rhagweld goblygiadau Covid-19 yn yr hirdymor, ac mae yna gryn ansicrwydd yn dal i fod am yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Felly, byddwn yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn parhau i fod yn berthnasol.

Ni allwn gyflawni ein hamcanion heb ein staff, sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y pandemig. Mae blaenoriaethu lles a sgiliau staff yn hanfodol er mwyn darparu ein gwasanaethau. Rydym yn falch o gael gweithlu brwdfrydig sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel ac er mwyn eu cefnogi a'u gwerthfawrogi nhw, os byddwn ni'n wynebu pwysau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, byddwn yn edrych ar eitemau busnes neu weithgareddau y gellir eu gohirio nes bydd pwysau ychwanegol y gwaith ymateb wedi ysgafnhau.

Rydym yn hynod o ddiolchgar a balch o'r ffordd mae cymunedau, gwirfoddolwyr, partneriaid a'n staff wedi dod ynghyd i ymateb i'r pandemig. Hoffem adeiladu ar y ffocws a'r gwytnwch hwn yn ein cymunedau er mwyn creu cyfleoedd newydd a helpu ein sir i ffynnu. Mae'r pandemig wedi creu cryn dipyn o broblemau cymhleth, ond mae hefyd wedi arwain at gyfleoedd i weithio a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol, a dyma yr hoffem ni ganolbwyntio arno yn ein cynllun adnewyddu. Er ein bod yn gobeithio ein bod ni nawr yn dod tuag at ddiwedd y pandemig, mae'r argyfwng newid hinsawdd yn her fyd-eang ar raddfa hyd yn oed yn fwy a dylai pob un ohonom wneud ein gorau i liniaru'r effaith. Fel yn y pandemig, mae'n hanfodol fod pob un ohonom yn chwarae ein rhan er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gyda'n gilydd, rydym yn gobeithio y gallwn ni fanteisio ar yr ysbryd cymunedol a welwyd yn ystod y cyfnodau clo, er mwyn lleihau ein hôl troed carbon a diogelu'r ardal fendigedig rydym ni'n byw ynddi.

Mae ein cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau cymunedol, o fyd addysg, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd, gwastraff, theatrau a hamdden, i enwi ond rhai.  Nid yw'r Cynllun Corfforaethol yn ceisio adlewyrchu pob elfen o waith y cyngor rydym yn gyfrifol amdano, ond mae cynlluniau mwy manwl ar gael a gallwch gyfeirio atyn nhw os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth.   Yn ogystal â gofyn am eich barn chi, rydym hefyd yn awyddus i adlewyrchu a rhannu'r hyn sydd wedi ei gyflawni.  Bob blwyddyn byddwn yn cyhoeddi hunanasesiad o'n perfformiad.  Rydym ni am glywed eich barn chi hefyd.   Os oes gennych chi syniadau, neu os hoffech chi gymryd rhan i wneud newid cadarnhaol yn eich cymuned, rhowch wybod i ni.



Cyng. Charlie McCoubrey
Arweinydd y Cyngor



Iwan Davies
Prif Weithredwr

## 2 Clywed eich barn chi

Datblygwyd y Cynllun Corfforaethol yn dilyn trafodaethau parhaus gyda chymunedau. Yn 2016 fe wnaethom lansio “Sgwrs y Sir” er mwyn casglu safbwyntiau mewn amryw o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori. Dros y blynyddoedd rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd ar amrywiaeth o destunau a datblygiadau gwasanaethau, er mwyn rhoi cyfle i gymunedau gyfrannu at lunio datblygiadau. Yn sgil cyfyngiadau Covid, ym Medi 2021 fe wnaethom addasu’r ffordd roeddem yn gweithio a chynhaliwyd cyfres o weithdai ar-lein i drafod syniadau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol yn benodol. Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg i holi barn pobl. Fe wnaethom hefyd ystyried adborth dienw o ddigwyddiadau ymgysylltu eraill a gynhaliwyd ac fe wnaethom ddefnyddio’r adborth hwnnw i ddatblygu’r Cynllun Corfforaethol drafft.

Rydym yn awyddus i barhau â’r drafodaeth hon ac rydym eisiau clywed eich syniadau chi ynghylch sut gellir gwella gwasanaethau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio “Sgwrs y Sir” fel ffordd i chi rannu syniadau, a byddwn yn parhau i groesawu barn cymunedau am ddatblygiadau gwasanaethau. Mae Sgwrs y Sir yn wahoddiad agored ar ein gwefan felly gallwch rannu eich barn unrhyw dro. Rydym hefyd yn rhestru ein holl ddigwyddiadau ymgysylltu ar y wefan fel cynllun gwaith i’r dyfodol, fel y gallwch chi ddewis sut a phryd yr hoffech chi gymryd rhan. Mae croeso i chi awgrymu gwelliant neu wneud sylw unrhyw adeg o'r flwyddyn, felly rhowch wybod i ni.

**Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc**

Nid oedolion yn unig sy’n gallu dweud eu dweud! Ein pobl ifanc yw'r genhedlaeth nesaf ac rydym am glywed eich barn a’ch syniadau chi hefyd!

Gallwch ddweud eich dweud am yr hyn sy’n digwydd yng Nghonwy mewn sawl ffordd. Mae’r holl wasanaethau sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghonwy yn rhoi cyfle i chi rannu eich barn. Yn benodol, mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy yn annog pobl ifanc i fod yn aelod o Gyngor yr Ifanc. Mae’n rhoi platfform i bobl ifanc gyfrannu at benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw, yn cynnwys rhannu syniadau am benderfyniadau a wneir yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae bod yn rhan o Gyngor yr Ifanc hefyd yn gyfle gwych i gwrdd â phobl newydd, gwella sgiliau siarad cyhoeddus, bod yn greadigol a chael achrediadau!

Mae gan Gyngor yr Ifanc Conwy hefyd ei banel sicrwydd Arloesedd ac Ansawdd mewnol ei hun sy’n rhoi cyfle i bobl ifanc werthuso ansawdd y ddarpariaeth, rhannu barn am welliannau a ffyrdd i greu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc sy’n byw yng Nghonwy.

Os hoffech chi gymryd rhan, ceir holl ddolenni ein cyfryngau cymdeithasol a’n tudalennau gwe yma:

Dolenni cyfryngau cymdeithasol Conwy Ifanc

Tudalen we Conwy Ifanc

Tudalen Facebook Cyngor yr Ifanc Conwy

Gall unrhyw un ymuno â **Sgwrs y Sir** i rannu eich safbwyntiau a'ch syniadau am y Sir neu eich ardal leol.

Dyma'r ddolen i'n tudalen we am Sgwrs y Sir

Gallwch ein dilyn ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

sgwrsysir@conwy.gov.uk

01492 574000
Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar y lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif maen nhw eisiau ei ddeialu.

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy ddefnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion, drwy Wasanaeth InterpretersLive!, a ddarperir gan Sign Solutions – ewch i www.conwy.gov.uk/Contact-Us/sign

**Rydym yn hapus i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain a braille.**

**Cysylltwch â'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol**

***Hoffech chi ymuno â'n tîm?*** **Rhagor o wybodaeth**

Swyddi a Gyrfaoedd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# 3 Ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

## Ein Gweledigaeth

**Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

Rydym yn gweithio mewn amgylchedd prysur sy'n newid. Ein gweledigaeth yw bod yn flaengar wrth reoli newid a'i ddefnyddio i greu cyfleoedd; i warchod yr hyn sydd gennym ac i adeiladu ar hyn er mwyn ymdrin â newid. Mae'r weledigaeth hon yn ymdrech ar y cyd. Rydym eisiau cryfhau ein perthynas gyda dinasyddion er mwyn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i wella'r sir. Ym mhopeth rydym yn ei wneud rydym eisiau bod yn flaengar a chreadigol fel y gallwn sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfleoedd ar gael yn ein cymunedau yn Sir Conwy.

## Y Ffordd Rydym Ni'n Gweithio – Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn cynrychioli credoau ein sefydliad a'r ymddygiad sydd i'w ddisgwyl gan bawb sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dyma ein Gwerthoedd:

Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith

Rydym yn deg â phawb

Rydym yn arloesol

Rydym yn gweithio fel tîm

# 4 Ein Blaenoriaethau

Mae Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Datganiad Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a amlinellir ar dudalen 30.

Sylfaen ein cynllun corfforaethol dros bum mlynedd yw ein nod i leihau ein hallyriadau carbon, cefnogi ac addasu i fesurau lliniaru newid hinsawdd, a llywio ein ffordd allan o bandemig Covid-19 mewn ffordd mor gynaliadwy â phosibl. Byddwn yn canolbwyntio ar ddull atgynhyrchiol lle bydd ystyried effaith amgylcheddol a charbon wrth wraidd ein holl benderfyniadau ar bob lefel; o unigolion i'r Cyngor cyfan. Datblygwyd ein Cynllun Corfforaethol yn ystod cyfnod o ansicrwydd sylweddol ac felly mae'n ddigon posib y bydd angen newid ein camau gweithredu dros amser. Serch hynny, gwyddom na allwn ni newid ein ffocws ar her yr hinsawdd. Bydd pob un ohonom yn ystyried sut bydd ein gweithredoedd yn effeithio ar yr hinsawdd ac yn gweithio tuag at dybiaeth o effaith gadarnhaol a negyddu effeithiau negyddol.

**Themâu trawsbynciol**

Ni ellir crynhoi rhai themâu mewn un canlyniad neu gyfres syml o weithredoedd. Mae'n bwysig deall sut mae ein canlyniadau a'n gweithredoedd ategol yn cael effaith ar ymdrin â rhai themâu trawsbynciol arwyddocaol ac rydym wedi defnyddio'r symbolau canlynol drwy gydol y cynllun i ddangos sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd.

**Newid Hinsawdd**: Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng byd-eang

**Tlodi**: Trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb

**Diogelu**: Diogelu a chefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

**Y Gymraeg**: Cefnogi a hyrwyddo iaith Gymraeg sy'n ffynnu

**Cydraddoldeb**: Trin pobl yn deg a chefnogi cyfle cyfartal

**Moderneiddio**: Sefydliad modern y gellir ei addasu

**Arbedion effeithlonrwydd**: Defnyddio adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol

# *Blaenoriaeth 1* - Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Newid Hinsawdd yw pwnc llosg ein hoes a'r bygythiad mwyaf i'n lles, yn fyd-eang ac yn lleol. Bydd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, isadeiledd a thirwedd ac yn bygwth lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Byddwn yn arwain drwy esiampl drwy leihau ein hallyriadau carbon a gwella gwytnwch amgylcheddol er mwyn ymdrin ag effeithiau Newid Hinsawdd. Byddwn yn cydweithio gyda phreswylwyr, cymunedau a busnesau i newid ymddygiad fel bod pawb yn chwarae eu rhan.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld** - Bod ein gweithredoedd wedi arafu newid hinsawdd a bod yr amgylchedd wedi'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy:**

1. Ein Rhaglen Her yr Hinsawdd, a byddwn yn gweithio tuag at fod yn sefydliad di-garbon erbyn 2030.
2. Defnyddio buddsoddiad cyfalaf mewn isadeiledd mewn ffordd sy'n cefnogi gwytnwch hinsawdd yn ogystal â gadael olion cadarnhaol yn gymdeithasol ac yn economaidd.
3. Cyflawni ein Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau.
4. Datblygu a gweithredu isadeiledd teithio llesol er mwyn annog pobl i gerdded a beicio a defnyddio llai ar eu ceir.
5. Gwella cyfleoedd i breswylwyr, ymwelwyr a busnesau i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy.
6. Cefnogi ffyrdd o fyw iach drwy ddarparu amgylchedd glân a deniadol.
7. Cefnogi datblygiad morlyn llanw yng Ngogledd Cymru a datblygu prosiectau gwyrdd er mwyn helpu'r economi i dyfu a helpu i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
8. Datblygu dull rhaglen cryf (yn cynnwys y Cynllun Ynni Ardal Leol) er mwyn cyflawni'r targed cenedlaethol o fod yn ddi-garbon erbyn 2050.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:


| | |
|---|---|
| M1.1 | % y newid mewn allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen |
| M1.2 | % y camau gweithredu a gwblhawyd o'n Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau. |
| M1.3 | Hyd y llwybrau mewn cilometrau (km) a ychwanegwyd at ddulliau teithio llesol |

| | |
|---|---|
| M1.4 | % y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd (PAM/030) |
| M1.5 | Nifer yr eiddo lle mae'r perygl o lifogydd wedi lleihau ar ôl rhoi mesurau amddiffyn rhag llifogydd ar waith |
| M1.6 | % y strydoedd sy'n lân (PAM/010) |
| M1.7 | Nifer y gwobrau a dderbyniwyd ar gyfer traethau yng Nghonwy |
| M1.8 | Nifer y parciau a'r gwarchodfeydd natur sydd â statws Baner Werdd |
| M1.9 | Nifer y gwobrau a gafwyd ar gyfer ein parciau a'n mannau gwyrdd |
| M1.10 | Monitro cynnydd ymyraethau blaenoriaethau'r Cynllun Ynni Ardal Leol |

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru
- Cynllun Datgarboneiddio Conwy
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd
- Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2
- Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru 2
- Cynllun Gwella Bioamrywiaeth
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy Conwy
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**




**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**



## *Blaenoriaeth 2 -* Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus a diwylliant yn ganolog iddi

Rydym eisiau i'n heconomi fod yn hyderus, yn gadarn ac yn gynaliadwy. Byddwn yn canolbwyntio ar ddathlu ein diwylliant a'n treftadaeth gan ddefnyddio Creu Conwy, ein Strategaeth Ddiwylliant i danio'r fflam er mwyn creu cymaint â phosibl o effaith economaidd ac effaith ar les.

Byddwn yn annog syniadau newydd ac yn defnyddio dulliau adfywio dan arweiniad diwylliant. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol gyda busnesau a'r sector creadigol i hyrwyddo amodau lle gallen nhw dyfu a ffynnu.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld:** - Bod ein treftadaeth gyfoethog wedi cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a bod modd i bob rhan o gymdeithas gael mynediad i'r celfyddydau a diwylliant i wella eu lles. Trwy gydweithio, byddwn wedi datblygu mentrau sy'n cael llawer o effaith a fydd yn sbarduno cynnydd mewn cynhyrchiant, yn gwella'r gallu i gystadlu ac yn creu swyddi ym musnesau'r sir drwy'r flwyddyn. Drwy wneud hyn, byddwn yn cadw talent ac yn gosod Conwy yng nghanol Economi Gogledd Cymru.

Drwy ddefnyddio Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy, Strategaeth Twf Economaidd, Cynllun Rheoli Cyrchfan, y Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth, y Strategaeth Digwyddiadau a'n cydweithwyr ar y Byrddau Rhaglenni Adfywio byddwn yn:

1. Creu'r amgylchedd cywir i gefnogi twf a denu busnesau newydd.
2. Gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i adfywio canol ein trefi ar draws y sir er mwyn annog twf a chreu trefi 'gwyrdd' bywiog.
3. Datblygu economi gyda'r nos a chynnig twristiaeth dros y gaeaf, gan wneud Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, a chefnogi adfywio cymunedol ar draws y sir.
4. Cydweithio gyda chymunedau, rhoi Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy ar waith a datblygu canolfannau cymunedol ymhellach er mwyn gwella lles, cefnogi adfywio cymunedol a'r effaith economaidd, gan fanteisio i'r eithaf ar asedau diwylliannol ein sir.
5. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu er mwyn gallu edrych ar ein hymrwymiadau cyfalaf dros gyfnod hirach.
6. Edrych ar gyfleoedd i arallgyfeirio ein heconomi o ganlyniad i'n profiadau yn y pandemig.
7. Adolygu ein strategaeth gaffael i gadarnhau ein hymroddiad parhaus i brynu'n lleol pan fo hynny'n briodol.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M2.1 | Nifer y busnesau a gefnogwyd - grantiau |
| M2.2 | Nifer y busnesau a gefnogwyd - cyngor a chymorth |

| | |
|---|---|
| M2.3 | % yr unedau sy'n wag ym mhortffolio uned ddiwydiannol CBSC |
| M2.4 | Dadansoddi canlyniadau'r Archwiliad Gwyrdd o Drefi a gweithredu ar y dystiolaeth |
| M2.5 | Dadansoddi effaith digwyddiadau dros y gaeaf |
| M2.6 | Nifer yr ymwelwyr ym misoedd y Gaeaf (Hyd - Chwe) |
| M2.7 | Nifer yr ymwelwyr ym misoedd yr Haf (Maw - Medi) |
| M2.8 | Dadansoddi adborth o'r arolwg ar economi gyda'r nos |
| M2.9 | Nifer y Llysgenhadon Twristiaeth Lefel Aur |
| M2.10 | Nifer yr ymholiadau i'r Tîm Llyfrgelloedd a Gwybodaeth |
| M2.11 | Nifer y cynlluniau gweithredu ar gyfer sbardunau diwylliannol |
| M2.12 | Asesu sut mae digwyddiadau'n effeithio ar ein heconomi |
| M2.13 | Buddsoddiad cyfalaf sy'n cael ei ysgogi neu ei gefnogi'n ariannol gan CBSC tuag at adfywio ac adfer sy'n cyd-fynd â dyheadau Strategaeth Twf Economaidd Conwy (2017 - 2027). |

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017 - 2027 a chynllun gweithredu.
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy 2019 - 2029 - Cyrchfan Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy
- Cynllun Datblygu Lleol a Strategaeth Datblygu Gwledig Conwy
- Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i strategaethau ategol:
    - Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
    - Cynllun Cysylltedd ac Isadeiledd Gogledd Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru - Datganiad gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau a diwylliant
- Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy
- Strategaeth Digwyddiadau Conwy
- Cynlluniau Gweithredu Adfywio Trefi
- Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth 2021-2026

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Cymunedau Cydlynus | Iachach | Llewyrchus | Mwy Cyfartal | Diwylliant ac Iaith Cymraeg | Cydnerth

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**

Y Gymraeg | Moderneiddio | Cydraddoldeb | Diogelu | Tlodi | Newid Hinsawdd

# *Blaenoriaeth 3 -* Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

Rydym eisiau i Gonwy gael ei adnabod fel lle sy'n cynnig addysg ardderchog ac yn cefnogi diwylliant dysgu gydol oes. Byddwn yn canolbwyntio ar wella addysg a pherfformiad ar draws y system ysgolion gyfan a sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyfleoedd swyddi.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld -** trwy ganolbwyntio ar y system ysgolion gyfan, bydd ein plant yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol. Byddan nhw'n unigolion iach a hyderus sy'n chwarae rhan weithgar mewn cymunedau ac sydd â'r sgiliau yn barod ar gyfer y cyfleoedd swyddi sydd ar gael.

**Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy:**

1. Gefnogi ysgolion i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.
2. Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau tuag at ddysgu a chwrdd â'i lawn botensial.
3. Rhoi rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar waith er mwyn sicrhau bod amgylcheddau dysgu'n addas i'r diben, yn cynnwys canolbwyntio ar leihau carbon ac ynni adnewyddadwy.
4. Sicrhau bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth dda o gyfleoedd swyddi a'r sgiliau priodol i gael mynediad at y byd gwaith.
5. Gweithio gydag ysgolion i gyflwyno rhaglen sy'n gwella sgiliau digidol dysgwyr.
6. Cefnogi plant a phobl ifanc i wella / rheoli eu Hiechyd Meddwl a'u Lles.
7. Cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol.
8. Hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac annog plant a phobl ifanc i fod yn falch o'r iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan na allwn ni gyhoeddi ffigyrau cyrhaeddiad, ac yn wir, mae ein ffocws ar addysg a sgiliau'n fwy cyfannol na graddau arholiad yn unig. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M3.1 | Adrodd ar y cynnydd a wneir drwy weithio gydag ysgolion i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. |
| M3.2 | Anghenion Dysgu Ychwanegol – Arolwg i gael ei lunio a mesurau i fod yn eu lle o flwyddyn 2 – er enghraifft *% y plant sydd wedi gwneud cynnydd tuag at eu targedau eu hunain.* |
| M3.3 | Adroddiad ar ôl troed carbon ysgolion Conwy (tCO2e) tunelli o CO2 cyfatebol |

| | |
|---|---|
| M3.4 | Canran ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET) |
| M3.5 | Cyfanswm nifer yr ymweliadau â 'HwB' - Platfform Dysgu Cymru |
| M3.6 | Nifer y lleoliadau addysg sy'n cymryd rhan mewn arolygon Lles |
| M3.7 | Dadansoddi'r adborth a geir o arolygon lles Addysg a gweithredu ar y canlyniadau |
| M3.8 | Canran y bobl ifanc sydd wedi cael eu hannog i fyw bywyd iachach ar ôl cymryd rhan yn ein gweithgareddau ieuenctid |
| M3.9 | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd |
| M3.10 | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd |
| M3.11 | % y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar gyfrifiad ysgolion) |
| M3.12 | % o ddisgyblion Meithrin a Derbyn sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg (yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion) |
| M3.13 | % o ddisgyblion oedran cynradd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg (yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion) |
| M3.14 | % o ddisgyblion oedran uwchradd sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg (yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion) |
| M3.15 | % yr athrawon yn ysgolion Conwy sydd â Chymraeg lefel Uwch neu well, yn ôl yr hyn a ddaeth i law fel rhan o waith casglu gwybodaeth am weithlu ysgolion. |
| M3.16 | Sgôr cyfartalog 9 wedi'i gapio ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 |

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Cynllun Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ar gyfer Conwy
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Cynllun y Gwasanaeth Addysg
- Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Cynllun Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol: Cwricwlwm i Gymru
- Strategaeth Twf Economaidd
- Cynllun Rhaglen Bwrdd Sgiliau a Chyflogadwyedd
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid
- Cynllun Datblygu Lleol
- Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag Iechyd Meddwl

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Llewyrchus
Mwy Cyfartal
Diwylliant ac Iaith Cymraeg
Iachach

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**

Tlodi
Moderneiddio
Cydraddoldeb
Y Gymraeg
Newid Hinsawdd

# *Blaenoriaeth 4* - Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd

Rydym eisiau i'n preswylwyr gael rhywle diogel ac addas i'w alw'n gartref sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles cadarnhaol.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld:** drwy ganolbwyntio ar ddull strategol, byddwn wedi creu cymunedau cynaliadwy mae preswylwyr yn falch o'u galw'n gartref.

**Byddwn yn gweitho tuag at y nod hwn drwy:**

1. Weithio i gynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy a hygyrch.
2. Gweithio gyda pherchnogion eiddo a landlordiaid preifat er mwyn ailddechrau defnyddio eiddo gwag.
3. Gweithio mewn partneriaeth er mwyn adolygu ein gwasanaethau i gryfhau ein dull atal digartrefedd ymhellach, a chynllunio ar gyfer ailgartrefu pobl ddigartref yn gyflym fel ei fod yn rhywbeth prin, am gyfnod byr ac nad yw'n cael ei ailadrodd.
4. Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi sefydlogrwydd ac ansawdd y sector cartrefi gofal.
5. Parhau i adolygu cymunedau lleol rhag ofn y byddan nhw'n troi'n fannau twristaidd poblogaidd sy'n effeithio ar fforddiadwyedd lleol.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M4.1 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel % o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn (PLA006) |
| M4.2 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu drwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Cymdeithasol (yn cynnwys tai â chymorth ar gyfer pobl ddiamddiffyn) |
| M4.3 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu drwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Canolradd (perchnogaeth tai / rhent cost isel) |
| M4.4 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a sicrhawyd drwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol) - Canolradd a Chymdeithasol |
| M4.5 | Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a grëwyd drwy ailddechrau defnyddio anheddau gwag ac eiddo amhreswyl gwag |
| M4.6 | Nifer yr anheddau sector preifat a fu'n wag am fwy na 6 mis sydd wedi'u dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol (PAM/013) |
| M4.7 | Nifer yr unedau ychwanegol a grëwyd o ganlyniad i ailddechrau defnyddio eiddo gwag (PAM/045) |

| | |
|---|---|
| M4.8 | Nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin cymdeithasol |
| M4.9 | % yr achosion lle llwyddwyd i atal digartrefedd |
| M4.10 | % yr achosion pan na lwyddwyd i atal digartrefedd a derbyniwyd y ddyletswydd digartrefedd wedi hynny |
| M4.11 | Nifer yr achosion digartrefedd sydd ar agor |
| M4.12 | Nifer yr achosion digartrefedd mynych<br>Dyma wybodaeth na fydd wedi ei chasglu o’r blaen felly ni fydd data hanesyddol ar gael |
| M4.13 | Nifer y teuluoedd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod |
| M4.14 | Nifer cyfartalog y dyddiau y bu pob teulu digartref ym mhob math o lety dros dro |
| M4.15 | Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Rhanbarthol - gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu set o fesurau |

**Mae’r blaenoriaethau hyn wedi’u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Rhaglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy
- Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)
- Strategaeth Tai Lleol Conwy
- Strategaeth Datblygu Gwledig Conwy
- Cynlluniau Lleoedd
- Cynllun Gweithredu Diwygio
- Strategaeth Gomisiynu
- Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**




**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**



# *Blaenoriaeth 5 -* Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Gyda'n gilydd byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod ymwelwyr a phreswylwyr Conwy yn ddiogel a bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld:** Fel cymunedau, rydym yn edrych ar ôl ein gilydd ac mae pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu. Mae'n bwysig nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl ac yn meddwl y dylem ni fod wedi gwneud mwy er mwyn diogelu pobl.

**Byddwn yn gweitho tuag at y nod hwn drwy:**

1. Barhau i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth bod diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb.
2. Gweithio i sicrhau diogelwch ac ansawdd y ddarpariaeth gofal a gweithio gyda darparwyr i gael gwared â'r angen i gael gofal heb ei reoleiddio.
3. Gweithio tuag at wneud pob un o'n hadeiladau cyhoeddus yn 'Fannau Diogel'.
4. Sicrhau bod mesurau yn eu lle i ddiogelu data personol ar ein systemau a chodi ymwybyddiaeth am seiberddiogelwch a hyrwyddo seiberddiogelwch er mwyn helpu ein dinasyddion i aros yn ddiogel ar-lein.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**
Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M5.1 | % y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol |
| M5.2 | % y staff sy'n dechrau mewn swydd gyda 2 dystlythyr |
| M5.3 | Dangos cynnydd ar ddatblygu gwasanaeth Ymateb Ffurfiol cydweithredol ar draws Gogledd Cymru er mwyn diogelu'r bobl rydym yn eu cefnogi'n well a darparu ymateb priodol pan fo angen. |
| M5.4 | Nifer y bobl sydd, drwy gael gwasanaethau teleofal, wedi osgoi canlyniadau niweidiol i godymau heb oruchwyliaeth. |
| M5.5 | Byddwn yn adolygu canfyddiadau Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. |
| M5.6 | Dadansoddi adborth ansoddol drwy siarad gyda phreswylwyr y sector gofal |
| M5.7 | Nifer yr adeiladau sy'n 'fannau diogel' |
| M5.8 | Cyflawni ardystiad Cyber Essentials |

Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae gan bob gwasanaeth gydgyfrifoldeb i ddiogelu pobl ddiamddiffyn, beth bynnag fo'u swydd. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau diogelu wrth recriwtio a hyfforddi staff, ond hefyd drwy eu harsylwadau a'r cyswllt maen nhw'n ei

gael yn eu gwaith o ddydd i ddydd, ac adrodd ar unrhyw beth sy’n peri pryder.

Mae ein Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai yn gweithio mewn partneriaeth gyda’r Heddlu a rhanddeiliaid eraill er mwyn helpu i atal ac ymdrin â throsedd ac anrhefn.  Maen nhw hefyd yn gweithredu mesurau Iechyd a Diogelwch mewn nifer o weithleoedd, cynlluniau trwyddedu ar gyfer busnesau a rheolyddion ar gyfer ardaloedd preswyl er mwyn lleihau troseddau ar garreg y drws a chreu cydnerthedd cymunedol.

**Mae’r blaenoriaethau hyn wedi’u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Cynllun Gweithredu'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol - mae sefydliadau allweddol sydd wedi ymrwymo i wella diogelwch cymunedol yng Nghonwy wedi datblygu cynllun gweithredu sy’n ymdrin â:
  Lleihau cam-drin domestig, lleihau faint o gyffuriau Dosbarth A sydd ar gael, mynd i’r afael â Throseddau Amgylcheddol (baw cŵn, sbwriel a graffiti), lleihau troseddau’n ymwneud ag alcohol, lleihau difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau lefelau aildroseddu, mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau, lleihau ofn troseddau a gwella tawelwch meddwl.
- Cynllun Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
- Cynllun Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Cymunedau Cydlynus
Iachach
Mwy Cyfartal

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**

Cydraddoldeb
Arbedion effeithlonrwydd
Diogelu
Moderneiddio

# *Blaenoriaeth 6 -* Mae pobl yng Nghonwy'n Iach

| |
|---|
| Byddwn yn hyrwyddo dewisiadau iach drwy ddarparu cyfleusterau i gefnogi ffordd o fyw iach, ac yn ei dro, lleihau'r galw ar y gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal. Byddwn yn cryfhau ein gwaith ataliol a'n gwaith partneriaeth rhwng y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu mynediad syml a di-dor at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol pan fydd eu hangen arnoch.<br><br>**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld:** Drwy greu amgylchedd sy'n galluogi pobl i wneud dewisiadau iach yn eu ffordd o fyw, byddwn wedi cyfrannu at wrthdroi problemau iechyd cronig a bydd pobl yn iachach ac yn byw'n hirach. Drwy gefnogi'r sector gofal, byddwn wedi sicrhau bod y gofal cywir ar gael pan fo'i angen a'n bod yn diwallu anghenion poblogaeth gynyddol o bobl hŷn. |
| **Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy:**<br><br>1. Weithio gyda'n gilydd drwy ein gwasanaethau cyffredinol a'r gwasanaethau yn ein cymunedau er mwyn lliniaru tlodi a chefnogi pobl sy'n byw mewn tlodi.<br>2. Bod yn sefydliad sy'n Ymwybodol o Gyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth a chynnal ein statws deall dementia.<br>3. Cefnogi lles meddyliol gofalwyr di-dâl fel eu bod yn gallu cyflawni eu rôl bwysig, a'u bod yn gallu cael cymorth pan fo argyfwng ac osgoi methiannau o ran gofal.<br>4. Datblygu strategaeth i gefnogi cynaliadwyedd y sector gofal plant ac oedolion. Bydd hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â chyllid, parch cydradd gydag iechyd, a rhoi mesurau ymyrryd cynnar ar waith sy'n canolbwyntio ar atal ac ailalluogi.<br>5. Gweithio er mwyn sicrhau bod ein timau hamdden a diwylliant yn cael eu cynnal yn ariannol ac ymdrin â'r hyn sy'n rhwystrau i ymarfer corff a materion lles, fel y gallwn gynnal darpariaeth gymunedol fforddiadwy i bawb a rhoi amrywiaeth eang o ddewisiadau lles ac ymarfer corff i gymunedau. |

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M6.1 | Nifer y bobl sydd ag Aelodaeth Ffit |
| M6.2 | Nifer y bobl ifanc (11-16 oed) sydd ag Aelodaeth Iau Ffit Conwy |
| M6.3 | % y cleientiaid NERS sydd wedi cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (PAM/041) |
| M6.4 | % y cleientiaid NERS sydd wedi gweld gwelliannau yn eu hiechyd ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (PAM/042) |
| M6.5 | Cyfanswm nifer y gwasanaethau i oedolion a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn lle bo'r gwasanaeth hwnnw ym maes:<br>• Gofal Preswyl |

| | |
|---|---|
| | • Gofal Cartref<br>• Gofal Dydd |
| M6.6 | Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc newydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn |
| M6.7 | Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at:<br>• Leihau'r angen am gymorth<br>• Cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth<br>• Lliniaru'r angen am gymorth<br>• Peidio â lleihau, cynnal na lliniaru'r angen am gymorth. |
| M6.8 | Dadansoddi adborth ansoddol drwy siarad gyda phreswylwyr y sector gofal |
| M6.9 | Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o boblogaeth, lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol (PAM/017) |

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru
- Y Strategaeth Dai Leol
- Strategaeth Comisiynu Gofal Cymdeithasol
- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Twf Economaidd Conwy
- Bwrdd Rhaglen Isadeiledd Gwyrdd

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Cymunedau Cydlynus | Iachach | Llewyrchus | Mwy Cyfartal | Cyfrifol ar lefel fyd-eang

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**

Tlodi | Newid Hinsawdd | Y Gymraeg | Cydraddoldeb

## *Blaenoriaeth 7 -* Mae pobl yng Nghonwy'n cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais ac maen nhw'n gallu cyfrannu at eu cymuned. Maen nhw'n byw mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac amrywiaeth leol yn cael ei pharchu

Byddwn yn addasu'r ffordd rydym yn gweithio fel bod yna amrywiaeth o ffyrdd y gall cymunedau lleol gyfathrebu, cydweithio ac ymgysylltu gyda'n gwasanaethau. Byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg a'n hymroddiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Sut ddyfodol yr hoffen ni ei weld:** Drwy wella'r ffordd rydym yn gweithio gyda chymunedau, byddwn wedi galluogi pobl i gael llais a chwarae rhan weithredol yn yr hyn sy'n digwydd ynddynt. Bydd siarad Cymraeg yn rhan o fywyd pob dydd ym mhob cymuned a bydd rhwydweithiau cymunedol cryf yn seiliedig ar egwyddorion ymddiriedaeth a pharch tuag at amrywiaeth leol.

**Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy:**

1. Wella cyfranogiad drwy fod yn hygyrch. Byddwn yn defnyddio Saesneg clir a Chymraeg Clir yn ein dulliau cyfathrebu ac yn darparu cymorth cyfieithu / cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod pobl yn deall yr hyn mae eu Cyngor yn ei wneud a sut gallan nhw gyfrannu.
2. Parhau i greu ein perthynas a'n cynlluniau cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned.
3. Rhoi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith.
4. Parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg i gefnogi ymgyrch Cymraeg 2050, sef targed Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.
5. Datblygu cynlluniau i gefnogi'r ymrwymiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth, strategaeth annog y cyhoedd i gymryd rhan a hygyrchedd a thryloywder penderfyniadau.
6. Sicrhau ein bod yn cefnogi a chroesawu amrywiaeth drwy roi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill megis cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a LHDTC+ Llywodraeth Cymru.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Bob chwe mis byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn edrych ar y wybodaeth a fydd ar gael ar y pryd. Byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellir ei wneud i wella a byddwn yn ystyried tystiolaeth fel:

| | |
|---|---|
| M7.1 | Monitro hygyrchedd ein tudalennau gwe a'n gwybodaeth ar-lein drwy ddefnyddio cyfuniad o systemau adolygu yn seiliedig ar unigolion a systemau technegol a gweithredu ar y canlyniadau |

| | |
|---|---|
| M7.2 | % y staff yng ngwasanaethau'r Cyngor sy'n gallu siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon ysgol a staff mewn ysgolion) |
| a | % y staff sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg (1,2,3) |
| b | % y staff sydd heb sgiliau Cymraeg o gwbl - lefel 0 |
| c | % y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (4,5) |
| M7.3 a | Nifer y staff sy'n derbyn y cynnig Cymraeg yn y Gweithle |
| b | Nifer y staff sy'n datblygu at y lefel nesaf yn ystod y flwyddyn |
| M7.4 | % y swyddi a ddynodwyd fel 'Cymraeg yn Hanfodol' a gafodd eu llenwi gan siaradwr Cymraeg |
| M7.5 | Nifer y digwyddiadau hyrwyddo'r Gymraeg |
| M7.6 | Adlewyrchu ar y cynnydd a wnaed yn y cynllun gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth |
| M7.7 | % Cwblhau'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol |
| M7.8 | % Cwblhau camau gweithredu'r Cynllun LHDTC+ |
| M7.9 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol - % y camau gweithredu a gyflawnwyd y dylid eu cyflawni yn ôl blwyddyn |

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Y Strategaeth Gyfathrebu
- Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned
- Pecyn Gwaith Cynllun Lleoedd
- Strategaeth TGCh 2017 - 2022
- Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol
- Cynllun gweithredu LHDTC+
- Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth y Gymraeg Conwy
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy
- Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth 2021-2026

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Cymunedau Cydlynus | Iachach | Llewyrchus | Mwy Cyfartal | Cydnerth

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol**

Y Gymraeg | Cydraddoldeb | Diogelu | Moderneiddio

## *Blaenoriaeth 8 -* Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gadarn

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sefydliad cadarn sy'n cael ei redeg yn dda ac mae'n gyflogwr da.**

Byddwn yn ceisio diwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i wneud y penderfyniadau gorau y gallwn ni yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu a byddwn yn gweithio o fewn y gyllideb sydd ar gael. Byddwn yn gweithio i ddarparu ffyrdd newydd, mwy cynhyrchiol o weithio sy'n creu cyfleoedd a chanlyniadau gwell i bawb. Rydym yn sefydliad sy'n gwrando a byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd i siarad gyda'n dinasyddion a'n staff, a gwrando arnynt.

**Byddwn yn gweithio tuag at y nod hwn drwy:**

1. Gydnabod mai ein gweithwyr yw ein hadnodd pwysicaf, byddwn yn parhau i gefnogi eu hiechyd a'u lles yn ogystal â'u datblygiad personol a phroffesiynol drwy fframwaith datblygu perfformiad newydd (Sgwrs Sir Conwy).
2. Rhoi'r Rhaglen Adnewyddu ar waith - sy'n anelu at adeiladu a manteisio i'r eithaf ar y dulliau gweithio buddiol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnodau clo a gwneud pethau'n wahanol er mwyn gostwng lefelau carbon, gwella lles staff, y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac effeithlonrwydd ar draws y sefydliad.
3. Parhau i ddatblygu ffyrdd i siarad gyda'n staff a gwrando arnyn nhw.

**Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?**

Byddwn yn cynnal hunanasesiad a fydd yn ystyried canlyniadau'r arolwg staff, adborth gan reoleiddwyr allanol a'n proses hunanasesu sy'n ymwneud â Deddf llywodraeth leol, a byddwn yn adrodd am ein casgliadau.

**Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cefnogi gan gynlluniau mwy manwl yn cynnwys:**

- Y Rhaglen Adnewyddu a'r Rhaglen Foderneiddio
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Strategaeth TGCh a Strategaeth AD
- Sgwrs Sir Conwy
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol am y Cynllun Corfforaethol
- Fframweithiau Rheoli Perfformiad a Risg

**Cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol**

Diwylliant ac Iaith Cymraeg | Iachach | Llewyrchus | Mwy Cyfartal | Cyfrifol ar lefel fyd-eang | Cydnerth

**Cyfrannu at ein themâu trawsbynciol:**

Y Gymraeg | Cydraddoldeb | Diogelu | Moderneiddio | Tlodi | Newid Hinsawdd | Arbedion effeithlonrwydd

# Atodiadau

## 5 Pwrpas y Cynllun

Nod y cynllun hwn yw cyflwyno blaenoriaethau lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2022 a 2027. Y blaenoriaethau yw'r meysydd rydym ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw'n arbennig, er mwyn cefnogi llwyddiannau canlyniadau'r dinesydd mae pobl eisiau eu gweld yn y sir. Rhoddir rhagor o fanylion mewn cynlluniau eraill am y tasgau penodol y byddwn yn eu cyflawni, ac mae'r blaenoriaethau'n cael eu cefnogi gan gynlluniau gwasanaeth sy'n amlinellu'r gwaith arferol y bydd yr Awdurdod yn parhau i'w wneud.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi blaenoriaethau lles dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ystyried **datblygiad cynaliadwy**, sy'n golygu **ystyried lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru** ym mhopeth maen nhw'n ei wneud. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n datgan bod pob corff cyhoeddus a enwir o dan y ddeddfwriaeth:

***"yn gorfod gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."***

I sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod lles cenedlaethol.

**Cymru Lewyrchus**
Cymru ecogyfeillgar sy'n darparu digon o hyfforddiant, addysg a gwaith i bawb

**Cymru gydnerth**
Amgylchedd naturiol a gefnogir ac a ddiogelir sy'n cynorthwyo pobl a busnesau i ymdopi â newid

**Cymru Iachach**
Mae pawb yn gwneud dewisiadau iach ac yn byw bywydau iach, nawr ac yn y dyfodol

**Cymru Mwy Cyfartal**
Mae pawb yng Nghymru'n cael eu trin yn deg ac yn cael cyfle i gyflawni eu potensial beth bynnag fo'u cefndir

**Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**
Mae pobl a Llywodraeth yn ofal ac yn ystyried y byd ehangach

**Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Mae pobl yn derbyn cymorth i siarad a dysgu Cymraeg ac mae gan bawb amser ar gyfer hamdden, diddordebau a digwyddiadau

**Cymunedau Cydlynus**
Cymunedau sy'n ddiogel, yn iach ac yn cyd-fyw'n hapus

Rhaid i bob Corff Cyhoeddus a enwir o dan y Ddeddf ddilyn 5 ffordd o weithio. Rydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio fel sylfaen ar gyfer ystyried a datblygu'r camau gweithredu a'r mesurau yn ein Cynllun:

**Ymgysylltiad**
Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor


**Integreiddio**
Ystyried sut gallai amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

**Atal**
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu

**Hirdymor**
Gweithredu mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles

**Cydweithio**
Sut gallai gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Cysylltiadau rhwng y 7 Nod Lles Cenedlaethol a Chanlyniadau'r Dinesydd:



# 6 Sgwrs y Sir a sut gwnaethom ddatblygu'r Cynllun

## 6.1 Gwrando ar Bobl - Sut gwnaethom ymgysylltu â chymunedau

Fe wnaethom ddechrau ein gweithdai gwrando i ddatblygu Cynllun 2022-27 ynghanol pandemig Covid-19, ac fe gyflwynodd hynny lawer o heriau. Yr un amlycaf oedd sut i ymgysylltu mewn cyd-destun lle'r oedd angen cadw pellter cymdeithasol a nifer helaeth o bobl yn gweithio gartref, dim llawer o gyfle i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a'r potensial i bobl cael llond bol ar ddefnyddio platfform zoom.

Fe wnaethom benderfynu, cyn gofyn gormod o gwestiynau neu'r un cwestiynau, ac efallai ailadrodd yr hyn a ofynnwyd i bobl yn barod, y buasem yn dechrau drwy adolygu adborth gan ddinasyddion a oedd gennym yn barod o weithgareddau ymgysylltu diweddar. Fe aethom ati i edrych yn fewnol ar draws pob gwasanaeth, siarad gyda'n partneriaid yn lleol ac edrych yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar arolygon diweddar.

Yna fe wnaethom gyhoeddi holiadur i ofyn cyfres syml o gwestiynau i bobl. Cafodd ei gyhoeddi ar-lein a'i argraffu a'i ddosbarthu i'n holl lyfrgelloedd sirol. Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau lleol, drwy Aelodau Lleol a Chynghorwyr Tref a Chymuned.

Gan ystyried yr her i gwrdd â phobl wyneb yn wyneb, fe wnaethom gynnal cyfres o 8 gweithdy ar-lein a gofynnwyd i Aelodau Etholedig, y cyhoedd a staff rannu eu safbwyntiau. Bu panel o uwch swyddogion ac Aelodau yn gwrando ar bob gweithdy. Canolbwyntiwyd yma ar ofyn i bobl am eu profiadau a gwrando ar yr hyn a oedd ganddyn nhw i'w ddweud. Cael sgwrs oedd y prif nod ar yr adeg hon - nid consensws nac ymgynghoriad.

Yn ogystal â'r 8 gweithdy zoom, fe wnaethom hefyd gynnal trafodaeth ryngweithiol ranbarthol (gyda thimau Cydlyniant Rhanbarthol Gogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain Cymru a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru) - Lleisiau Cymunedol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ymgysylltiad â phobl lle gallai iaith, diwylliant, neu wahaniaethau cymdeithasol neu gorfforol greu rhwystrau i gael eu clywed yn effeithiol a ffurfiodd ran o adolygiad yr asesiad o les ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Cymerwyd rhan yn y drafodaeth hon gan bedwar deg tri chynrychiolydd o grwpiau nas clywir yn aml.

Fe wnaethom hefyd gysylltu â grwpiau a rhwydweithiau lleol sy'n arbenigo mewn cefnogi pobl sydd â nam ar eu synhwyrau er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynnwys. Fe wnaethom hefyd weithio gyda fforwm ieuenctid lleol i holi eu barn.

## 6.2 Beth wnaethom ei ofyn:

Er ein bod dros y blynyddoedd wedi ymgysylltu'n rheolaidd â chymunedau ar destunau penodol, roeddem eisiau i bobl feddwl am yr hyn a ddywedwyd wrthym 5 mlynedd yn ôl, sef y tro diwethaf i ni lunio cynllun corfforaethol. O'u profiadau dros y 5 mlynedd diwethaf, fe wnaethom ofyn iddyn nhw ddweud wrthym beth sydd wedi newid, a beth maen nhw'n ei feddwl sy'n dal i fod angen ei wneud i wneud datblygiadau cadarnhaol mwy hirdymor ar gyfer pob un o ganlyniadau'r dinesydd.
Fe wnaethom felly ofyn 3 chwestiwn agored syml:

1. Dywedwch wrthym am eich meddyliau a'ch profiadau o ran y themâu hyn - a oes unrhyw beth wedi newid yn eich barn chi?

2. Rydym yma i wrando - beth ydych chi'n awgrymu sydd angen ei wneud i wella pethau? (Beth allai wneud i hyn ddigwydd? / Beth allai atal hyn rhag digwydd? / Sut gallech chi / cymunedau helpu?)

3. Gan feddwl am y tymor hir: pa syniadau sydd gennych chi i greu dyfodol gwell i'n hwyrion a'n hwyresau?

## 6.3 Y bobl y buom yn siarad â nhw

- Dinasyddion - drwy gynnal gweithdai, a holiaduron ar-lein ac ar bapur
- Pobl ifanc - drwy rwydweithiau a gweithdy gyda phobl ifanc a gefnogir gan Wasanaeth Ieuenctid Conwy
- Staff - wedi eu gwahodd i'r gweithdai ac i gwblhau'r holiaduron ar-lein
- Aelodau - drwy weithdai Aelodau a'r broses ddemocrataidd
- Busnesau - drwy weithdai cyhoeddus a thrwy gylchlythyrau busnes
- Rhwydweithiau a grwpiau cymunedol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Partneriaid, sefydliadau lleol a rhanbarthol
- Pobl sy'n cael eu hystyried yn anodd eu cyrraedd drwy weithdy Lleisiau Cymunedol rhanbarthol


## 6.4 Fe wnaethom hysbysebu ein digwyddiadau ymgysylltu drwy

- Wneud datganiad i'r wasg - i lansio'r sgwrs ymgysylltu a'r gweithdai
- Negeseuon e-bost wedi'u targedu i'n holl randdeiliaid ar ein cronfa ddata rhanddeiliaid

- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol - a oedd yn cyrraedd 20,500 o bobl a thalu am hysbysebion ar Facebook - a oedd yn cyrraedd 11,797 o bobl, a 450 o'r rheiny'n clicio i ymweld â'n tudalennau
- Llyfrgelloedd - fe wnaethom argraffu a rhannu copïau Cymraeg a Saesneg i holl lyfrgelloedd y sir.
- Fe wnaethom ofyn i Aelodau Etholedig a'n holl bartneriaid rannu ein digwyddiadau ymgysylltu drwy eu rhwydweithiau


**6.5 Dadansoddi'r ymatebion:**

Graff 1 - O ble'r cafwyd yr ymatebion (holiaduron a gweithdai):




| Ym mha ran o Gonwy roedd pobl yn byw | |
|---|---|
| Gorllewin | 15% |
| Gogledd | 15% |
| Canolbarth | 35% |
| Dwyrain | 15% |
| De | 15% |
| Y tu allan i Gonwy | 2% |
| Heb ddarparu cod post | 3% |

Graff 2 - Dosbarthiad oedran a rhyw yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol:



Bwrdd 1 - Grŵp Oedran y bobl a gymerodd ran

| Grŵp Oedran y bobl a gymerodd ran | |
|---|---|
| **0-15** | 8% |
| **16-24** | 1% |
| **25-34** | 3% |
| **35-44** | 10% |
| **45-54** | 20% |
| **55-64** | 41% |
| **65-74** | 13% |
| **75 a throsodd** | 3% |
| **Mae'n well gen i beidio â dweud** | 0% |
| **Dim ymateb** | 1% |

Bwrdd 1 - Rhyw y bobl a gymerodd ran

| Rhyw y bobl a gymerodd ran | |
|---|---|
| **Benyw** | 65% |
| **Gwryw** | 33% |
| **Mae'n well gen i beidio â dweud** | 1% |
| **Dim ymateb** | 1% |

Delwedd 6 - Mynychodd 43 o sefydliadau'r gweithdy llais cymunedol



### 6.6 Asesiad o Les

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i lunio Asesiad Lles Lleol. Mae hyn yn cefnogi cyrff cyhoeddus i lunio Amcanion Lles ac i lunio unrhyw gynlluniau a osodir er mwyn gwella lles y trigolion sy'n byw yn eu hardal. Yn 2021, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, rydym wedi cynnal Asesiad o Les ffurfiol. Rydym wedi edrych ar drigain o bynciau manwl gan gynnwys cludiant, gordewdra, sectorau economaidd allweddol, bioamrywiaeth, cydraddoldeb, y Gymraeg, trais domestig ac yn y blaen. Mae gennym ni hefyd broffiliau ardaloedd lleol ar gyfer pob un o ardaloedd grwpiau ardal ein haelodau. Mae pob testun yn cynnwys dadansoddiad manwl am: y sefyllfa sydd ohoni nawr, sut mae hynny'n cymharu â'r gorffennol; sut olwg sydd ar y dyfodol; beth mae pobl wedi'i ddweud am y testun, yn ogystal â chwestiynau allweddol a meysydd ble mae angen mwy o waith ymchwil.

Mae'r Asesiad o Les ar gael ar-lein yma: Asesiad o Les Conwy a Sir Ddinbych

### 6.7 Datblygu'r Blaenoriaethau

Rydym wedi adolygu'r adborth a gafwyd yn Sgwrs y Sir, a'r dadansoddiad o ymarferion ymgysylltu eraill a gynhaliwyd yn ddiweddar i gael adborth, ac wedi edrych ar y canfyddiadau yn yr Asesiad o Les. Rydym wedi defnyddio'r holl wybodaeth hon i osod y blaenoriaethau yn y cynllun drafft.

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, rydym wedi asesu ei effaith a'i fforddiadwyedd ac ystyried y 5 ffordd o weithio. Rydym hefyd wedi adlewyrchu ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r cysylltiadau gydag amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cafodd y Cynllun Corfforaethol drafft ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022 er mwyn cynnal ymgynghoriad ehangach yn ei gylch gyda chymunedau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ôl Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai. Cafodd y cynllun drafft ei ddiwygio'n unol ag adborth gan gymunedau ac Aelodau Etholedig a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn XXX 2022. (caiff y datganiad hwn ei ddiweddaru yn nhymor yr hydref 2022)

## 7 Datganiad Lles a Datganiad Cyfrifoldeb

### 7.1 Datganiad Lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganlyniadau cenedlaethol ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd eu penderfyniadau. Dylai fod yn brif egwyddor drefniadol i ystyried effaith amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd penderfyniadau. Mae'r blaenoriaethau a gyhoeddir yn y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu rhwymedigaeth y Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi Amcanion Lles.

Mae'r Cyngor yn credu y bydd ei Amcanion Lles yn cyfrannu at gyflawni'r Nodau Lles gan fod

pob un o Ganlyniadau'r Dinesydd yn cyd-fynd â'r Nodau Lles yn nogfen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y dangoswyd ar dudalen 25. Roedd y broses o asesu'r camau blaenoriaeth yn adlewyrchu ar y 5 ffordd o weithio ac mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol, sy'n anelu at weithio tuag at yr effaith yn y tymor hirach, maent wedi cael eu hintegreiddio wrth ystyried sut maent yn cyfrannu at y 7 Nod Lles ac maent yn gydweithredol o ran y ffocws ar weithio'n agos gyda chymunedau - fel eu bod yn rhan o berchenogi a gweithio ar y cyd i ddiwallu Canlyniadau'r Dinesydd. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi ystyried blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol er mwyn edrych ym mhle mae'r blaenoriaethau'n effeithio ar sefydliadau cyhoeddus eraill a lle ceir cyfleoedd i gydweithio *(caiff y datganiad hwn ei ddiweddaru yn nhymor yr hydref 2022).*

Roedd cymunedau'n ymwneud â datblygu'r blaenoriaethau a bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau wrth symud ymlaen. Mae ein themâu trawsbynciol hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd asesu ein gweithredoedd a phenderfyniadau pwysig er mwyn cael effaith gadarnhaol ar drechu tlodi, cydraddoldeb a hyrwyddo'r Gymraeg. Ni ellir cyfeirio at un neu ddwy weithred yn unig wrth sôn am dlodi a chydraddoldeb, a bydd y blaenoriaethau a ddewisir, gyda'i gilydd, yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ymdrin â'r meysydd sylfaenol hyn drwy wella addysg, tai, diogelwch, cyfleoedd swyddi, effaith amgylcheddol a lles cyffredinol. Mae hawliau plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn hynod o bwysig i'r Cyngor ac yn cael ei annog yn gryf. Drwy nifer o rwydweithiau plant a phobl ifanc ceir traddodiad sy'n bodoli ers tro i roi llais i bobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn ogystal â defnyddio'r adborth gan lawer o blant a phobl ifanc, roedd y broses ymgysylltu'n cynnwys trafodaeth gyda phobl ifanc er mwyn siapio'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol. Nid digwyddiad a gynhelir unwaith yn unig yw hwn, ond mae'n rhan o drafodaeth barhaus sydd wedi cael ei chynnal dros nifer o flynyddoedd.

Roedd y broses ymgysylltu a gynhaliwyd drwy Sgwrs y Sir yn monitro ymatebion er mwyn asesu a oedd yr adborth yn cynrychioli holl ardaloedd y sir, pob Nod Lles, pob grŵp oedran a'r holl nodweddion a ddiogelir. Nid digwyddiad a gynhelir unwaith yn unig yw Sgwrs y Sir. Byddwn yn parhau gyda Sgwrs y Sir i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn cael eu cynnwys. Mae'r ddogfen ategol, 'gwneud newidiadau syml', yn cefnogi ein nod y byddwn yn gweithio gyda dinasyddion er mwyn cyflawni'r Nodau Lles ac mae'n parhau gyda'n dymuniad i newid perthynas y Cyngor gyda dinasyddion er mwyn cael cydweithio yn hytrach na dibyniaeth lwyr, lle bo hynny'n briodol. Rydym wedi gosod blaenoriaeth gorfforaethol i adolygu'r ffordd rydym yn ymgysylltu er mwyn adlewyrchu amrywiaeth y Sir a pharhau gyda chynllun gwaith i'r dyfodol fel y gallwn ni ddangos sut a phryd y gall pobl gymryd rhan a sut byddwn yn rhoi adborth i'r gymuned.

Mae dyraniad adnoddau wedi ei nodi ar gyfer pob blaenoriaeth. Byddwn yn adolygu cynnydd ar y Nodau Lles bob chwe mis ac yn adrodd yn flynyddol ar yr hyn rydym wedi ei gyflawni. Bob mis Mawrth, byddwn yn adolygu'r Cynllun Corfforaethol er mwyn asesu a yw'n dal i fod yn berthnasol a fforddiadwy.

Anelir tuag at gyflawni neu wella'n sylweddol ar y camau blaenoriaeth a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol, erbyn diwedd cyfnod y weinyddiaeth hon, h.y. 2027. Bydd rhai blaenoriaethau wedi eu cwblhau'n gynharach a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adolygiadau a wneir ym mhob adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol.

## 7.2 Datganiad o Gyfrifoldeb

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("yr Awdurdod") yn gyfrifol am sicrhau bod ei waith cynllunio busnes yn cael ei weinyddu'n unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn diwallu'r rhwymedigaeth statudol i wneud trefniadau ar gyfer gwelliannau a chyhoeddi Datganiad Lles.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol hon, mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yna system reoli fewnol gadarn. Mae'r wybodaeth a'r asesiadau yr adroddir yn eu cylch yn y Cynllun hwn yn seiliedig ar y system reoli hon.

Mae effeithiolrwydd ein hamgylchedd rheoli yn cael ei adolygu fel rhan o'n trefniadau llywodraethu. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y wybodaeth yn yr adroddiad hwn, ym mhob ffordd berthnasol, yn gywir ac yn gyflawn.

Mae'r Awdurdod yn hunanasesu ac adrodd ar berfformiad mewn 2 gam.

**Cam 1** - Cynllunio ar gyfer Gwella

'Cynllun Corfforaethol Conwy 2022-2027', y cynllun strategol dros bum mlynedd, yw cynllun strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn gwella ac mae'n cynnwys Datganiad Lles yr Awdurdod. Cafodd fersiwn drafft y Cynllun ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022. Bydd yn cael ei ddiwygio yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a'i ystyried a'i adolygu gan y weinyddiaeth etholedig newydd ar ôl etholiadau'r cyngor sir ym mis Mai 2022. Bydd yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol ar ôl i'r Cyngor ei gymeradwyo yn nhymor yr hydref 2022.

**Cam 2** - Hunanasesiad o'r hyn a Gyflawnwyd yn y Cynllun

Mae Rhan 6, Pennod 1 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn amlinellu trefn perfformiad a llywodraethu newydd, sy'n diffinio prif gynghorau fel sefydliadau sy'n gwella'u hunain drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiad o berfformiad gan banel.

Mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf wedi eu llunio yng nghyd-destun y ddyletswydd lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n amlinellu pwrpas cyffredin ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae'r darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yn cyd-fynd â'r dyletswyddau eraill a roddir ar gynghorau, megis y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010), a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021.

Yn unol â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad, bob chwe mis byddwn yn adolygu pob maes gwasanaeth i ddarparu cefnogaeth a her, a monitro ein cynnydd i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, blaenoriaethau eu Cynllun Gwasanaeth, prif risgiau, mesuryddion perfformiad, llwyddiannau a meysydd gwelliant. Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno i Uwch Reolwyr ac Aelodau Etholedig mewn Adroddiad Perfformiad Corfforaethol. Gellir canfod copïau o'r adroddiadau bob chwe mis ar ein gwefan ym mhapurau pwyllgor y cabinet.

Bob blwyddyn bydd gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori gydag amryw o bobl (ymgyngoreion statudol) o leiaf unwaith ymhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau rydym yn cwrdd â'r gofynion perfformiad. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am y cynnydd rydym wedi ei wneud er mwyn rhoi blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ar waith. Ceir hefyd adroddiad hunanasesu a fydd yn cydymffurfio gyda'n dyletswydd i adolygu perfformiad drwy ofyn ac ateb y cwestiynau canlynol

1. A ydym ni'n arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
2. A ydym ni'n defnyddio ein hadnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
3. A yw ein trefniadau llywodraethu'n effeithiol er mwyn sicrhau'r uchod.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad hunanasesu'n cael eu cyflwyno er mwyn i'r Cyngor eu cymeradwyo a byddan nhw'n cael eu cyhoeddi'n syth ar ôl hynny.

### 7.3 Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011, mae gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024, Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a Pholisi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. I gydymffurfio â'r polisi hwn, mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (yn cynnwys dyletswydd economaidd-gymdeithasol a gofynion integredig eraill yr asesiad o effaith) wedi ei gwblhau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gwaith sgrinio ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a/neu Asesiadau llawn o Effaith ar Gydraddoldeb ar gamau gweithredu yn y Cynllun lle bo hynny'n briodol.

# 8 Rheolaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn amlinellu'r dull strategol i reoli ei gyllid a bydd yn ceisio rhagweld rhai o'r problemau ariannol y bydd y Cyngor yn eu hwynebu dros bum mlynedd y weinyddiaeth wleidyddol, gan gofio bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn debygol iawn y bydd rhagolygon o'r fath yn newid.

Nod y Strategaeth yw darparu strategaeth ariannol i gefnogi ystyriaethau cynllunio yn y tymor canolig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn paratoi'r Cyngor ar gyfer y cyfnod sydd i ddod, yn hytrach na dim ond ceisio mantoli materion un flwyddyn ar y tro. Mae hyn wedi bod yn ddull llwyddiannus yn y gorffennol ac o ganlyniad mae'r Cyngor wedi gallu cynllunio gostyngiadau yn y gyllideb mewn ffordd resymegol a chynhwysol heb orfod llunio penderfyniadau ar frys.

Ni all y Strategaeth fodoli ar ei phen ei hun - mae costau'r Cyngor yn seiliedig ar amryw o ofynion darparu gwasanaethau a chyfrifoldebau statudol y mae'n rhaid eu darparu ac sy'n seiliedig ar anghenion demograffig y sir sydd angen darparu ar ei chyfer. Felly, mae gan y Strategaeth gysylltiadau cryf gyda chyfeiriad strategol y Cyngor fel yr amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol 2022 - 2027.

Bydd y prif elfennau sy'n ffurfio'r Strategaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r Strategaeth yn arf allweddol ar gyfer rheolaeth ariannol ragweithiol a dyma fydd y sylfaen ar gyfer y broses flynyddol i osod cyllideb er mwyn sicrhau bod anghenion adnoddau'r Cyngor yn canolbwyntio ar y prif flaenoriaethau, a'u bod yn caniatáu ar gyfer nodi mewn da bryd y gofynion / problemau cyllid a ragfynegir ar gyfer y dyfodol er mwyn cymryd y camau angenrheidiol.

Mae'r goblygiadau i adnoddau sy'n deillio o'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys mewnbwn sy'n amrywio o gapasiti swyddogion i chwilio am gyllid allanol sylweddol er mwyn helpu i wireddu'r prif flaenoriaethau dros gyfnod y cynllun. Mae'n deg dweud nad yw'r Cynllun Corfforaethol ei hun yn ffurfio sylfaen unrhyw newid o safbwynt ariannu, o'n cyfrifoldebau statudol i'r elfennau hynny a nodir yn y Cynllun yn unig.

Rhaid edrych ar bob blaenoriaeth a'i barnu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael a derbyn y gwir plaen na fydd yr hyn yr hoffem wario arno'n cyfateb i'r hyn y gallwn wario arno.

# 9 Adolygu Rheolaidd – sgwrs barhaus

Bydd Sgwrs y Sir yn parhau fel y gallwn adolygu'r Cynllun Corfforaethol yn flynyddol. Yr adborth a gawsom oedd yr hoffai pobl fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir am eu cymunedau lleol, gwybod beth yw'r problemau a rhannu'r cyfrifoldeb i fynd i'r afael â nhw.

Ein ffordd ni i barhau â Sgwrs y Sir yw defnyddio cynllun gwaith i'r dyfodol sy'n cynnwys y dulliau ymgysylltu a drefnwyd, fel y gall dinasyddion benderfynu beth a phryd yr hoffen nhw gymryd rhan. Caiff testunau ymgysylltu eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i glywed barn Dinasyddion Conwy er mwyn sicrhau ein bod yn clywed barn y gymuned, cynnwys dinasyddion mewn datblygiadau a rhoi gwybodaeth iddyn nhw am y cynnydd rydym yn ei wneud. Yr Aelodau a gafodd eu hethol yn ddemocrataidd yw un o'r prif sianeli cyfathrebu, gan eu bod mewn cyswllt rheolaidd â'r dinasyddion yn eu wardiau, ac maen nhw'n chwarae rôl allweddol i gynrychioli a mynegi barn y gymuned. Mae'r holl benderfyniadau pwysig yn cael eu cymeradwyo gan yr Aelodau Etholedig.

Byddem yn croesawu eich barn – i gymryd rhan, cyfeiriwch at y manylion ar dudalen 6.

## 10 Ymhle gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am y Cyngor

- Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Os hoffech chi ymuno â'n tîm ac i ganfod mwy am gyfleoedd gyrfa ewch i: Swyddi a Gyrfaoedd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Rhwydweithiau Cymdeithasol - Gallwch ein dilyn ar Twitter ac ar Facebook.
- Mae Data Cymru yn casglu, cyflwyno a chymharu data'r Fframwaith Mesur Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer pob cyngor yng Nghymru.
- Mae Fy Nghyngor Lleol yn rhoi gwybodaeth er mwyn helpu pobl i ddeall pa mor dda mae eu cyngor yn perfformio mewn amryw o wasanaethau'r cyngor.
- Ewch i'n tudalen Gwybodaeth am berfformiad ar y we i gael gwybodaeth sy'n rhoi manylion am ein cynnydd dros gyfnod o flynyddoedd.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn arolygu perfformiad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae adroddiadau archwilio cenedlaethol a rhai am gynghorau penodol i'w gweld ar eu gwefan.
- Mae Estyn yn arolygu pob ysgol gynradd ac uwchradd a phob Awdurdod Addysg Lleol ledled Cymru. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar eu gwefan.
- Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys arolygu ansawdd sefydliadau gofal cymdeithasol ac ansawdd rhai darpariaethau blynyddoedd cynnar ar draws y Sir. Mae adroddiadau pob arolwg i'w gweld ar eu gwefan.
- Gallwch ganfod copi o'r Cynllun Corfforaethol hwn a fersiwn gryno o'r Cynllun Corfforaethol yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan.
- Mae modd i chi hefyd weld y Cynllun gan ddefnyddio un o'r cyfrifiaduron sydd at ddefnydd y cyhoedd, yn rhad ac am ddim, ym mhob Llyfrgell yn y Sir ac wrth y dderbynfa ym Modlondeb a Choed Pella.
- Gellir gofyn am gopi papur drwy anfon e-bost atom ar cidt@conwy.gov.uk neu drwy ffonio 01492 574000.
- Gellir gweld fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o'r Cynllun Cryno yma.